



Site Stakeholder Group

Summary of the key points from the Trawsfynydd Site Stakeholder Group Meeting held on the 30 January 2020. at Trawsfynydd Conference and Induction Centre

1. The Chairman updated members on recent meetings he had attended. He welcomed Angharad Rayner to her first meeting as the new Site Closure Director.
2. Angharad Rayner presented the Magnox Site Closure Director's Report for Trawsfynydd. She explained that the usual written Site Manager report will be supported with a video presentation recently provided to staff.
3. An End Sites update was provided by Mr Ian Warner
4. Mr Mike Baggs Environmental Agency gave a briefing on the joint Natural Resource Wales/Environment Agency report.
5. Mr Jonathan Jenkin Nuclear Decommissioning Authority gave an update of site activities on behalf of the NDA.
6. Mr Ifer Gwyn provided a Horizon Nuclear Power update.
7. Mr Dafydd Watts gave a presentation on the Twrog Community Energy Company and its achievements to date.
7. An update on recipients of the Magnox Socio-Economic Scheme was presented by Mair Jones.



Site Stakeholder Group

**Trawsfynydd Site Stakeholder Group Meeting
Thursday 30 January 2020 at 13:00 hrs
Held in the Conference Room
at Trawsfynydd Conference and Induction Centre**

MINUTES

PRESENT

NAME

Cllr Keith O'Brien (Chair)
Angharad Rayner
Cllr David Meredydd Williams
Cllr John Llewelyn Richards (Vice-Chair)
P Richardson
Rory Trappe
John Idris Jones
Nia Swann Bowden
Mike Baggs
David Wilby
Ifer Gwyn
Ian Warner
Sion Richards
Steve Thomason
Sam Morgan
Andrew McAteer
Bryn Jones
Cllr. Elfed Roberts
B. Walley
A J Taylor
Andrew Innes
Tas Aichtiar
Medwyn Williams
Jonathon Jenkin
Michelle Humphreys
Mair Jones
Sydna Roberts
Gwynfor Jones

ORGANISATION

Trawsfynydd Community Council
Magnox Site Closure Director
Maentwrog Community Council
Talsarnau Community Council
Magnox
Magnox, Traws TU Rep
Snowdonia Enterprise
Snowdonia Enterprise Zone
NRW/EA
NRW/EA
Horizon
Magno
Magnox
Traws Magnox (Unite)
Blaenau Ffestiniog
Magnox Maentwrog
Trawsnewid
Gwynedd Council
Magnox, Traws TU Rep
Magnox Waste Manager
Magnox Traws, Engineering Section
Magnox Traws, Rad Protection Engineer
Penrhyndeudraeth Town Council
NDA
Magnox Comms Regional Lead
Magnox Socio-economic Scheme
Cymen – minute taker
Cymen - translator

1. Apologies for absence

The Chair welcomed everyone to the meeting at 1pm. The following apologies were noted:-

Julia Frost	NRW
Ian Dallas	ONR
Cllr Gareth Thomas	Gwynedd County Council
Iestyn Pritchard	NFU
Sioned Williams	GCC
Glyn Daniel	Blaenau Ffestiniog
Anwen Daniel	Blaenau Ffestiniog

2. Approve the Minutes of the meeting held on 6 June 2019

Minutes of the meeting held on 6 June 2019 were presented and accepted as a correct record.

3. Matters arising from the minutes of the meeting held on 6.6.19

No matters were raised

4. Chairman's Address – Keith O'Brien

The Chair welcomed Angharad Rayner to her first meeting as Site Closure Director and wished her well in her new post. He then gave an overview of his activities since the last meeting and drew particular attention to the following:-

- The meeting of the group scheduled for last December was deferred due to the Government being in a period of pre-election sensitivities. The NDA, however, wish to apologise for the deferment which it transpires was not necessary.
- The Annual NDA Stakeholder Summit was held on the 9–10 July at the new engineering centre at Coleg Menai Llangefni. He shared a leaflet which outlined the main activities of the event. Next Generation working with schools and supporting skills development was a key message. The next NDA Stakeholder Summit will be held in Edinburgh, November 2020
- Last week attended a meeting in London where Gwen Parry-Jones the newly appointed Magnox CEO Magnox gave a presentation. It was pleasing to note that Trawsfynydd was mentioned in a positive manner several times during the meeting,
- SRG Charter will be discussed under AOB
- Roadshows to be arranged for Magnox and RWM – will inform members
- Attended several Socio-Economic Panel meetings
- Yellow float plane using the lake – this issue has been transferred to the NDA who are now in discussion with Magnox who own the lease on the lake. Legal advice is currently being sought.

5. Site Closure Director's Report – Angharad Rayner

Angharad Rayner thanked the Chair and members for the welcome and their good wishes. She provided members with a full written report which she summarised within a video presentation on site developments and achievements to date.

The summary was as follows:-

Reporting period: June 2019 - January 2020

Safety performance

The site continues to see excellent low level reporting with no significant events in the last 12 months.

Employee health and well being programme

- Health and Wellbeing Steering Group formed in November 2019

- 20/20 Health – a collaboration between Magnox and Interserve to promote health and well being across both companies
- Results of a site survey has informed an Activities Calendar for 2020-02-19 20/20 Challenge launched January 2020 and will run through to the end of the year
- Staff issued with pedometers to encourage fitness
- Health and Well-being Fair held on 21 February where local experts offered a diverse range of services and activities from mental health support to climbing and knitting groups.
- Coleg Menai to develop a new Health Physics course that will be extended to Dolgellau site and possibly UK wide for other Companies to utilise.
- A new graduate, a local young lady has been welcomed on site.

Transition

- September 2019 saw Magnox transition from a Parent Body Organisation to an NDA subsidiary
- November 2019 20 Wylfa staff joined Trawsfynydd following the completion of Defuelling at Wylfa
- Trawsfynydd Health Physics team provided retraining to former Wylfa Operators.

Critical Path Progress

- Currently working through a high level schedule looking at Plant and Structure; Site Restoration and Waste Operations.
- All ILW waste streams open or completed
- North FED completed 50% rate retrieval
- August 2019 South FED commenced active commissioning
- The Low Level Waste team completed the 2019/20 target to ship 12 consignments of LLW in three months with an additional four consignments by 31.03.2020

What's being done now?

Ponds de-plant

Mr Ian Warner provided members with a detailed update on progress to date noting the following.

- Ponds switchgear room and lobby – completed
- Ponds south filter room – in progress
- Ponds active effluent plant basement – preparations in progress
- Final Effluent Delay Tanks (FEDT) removed by local contractor which therefore proved to be more cost effective
- Work ongoing as regards Asset Management

IW was thanked for his presentation and it was agreed to circulate to all members.

Environmental Safety

Sion Richards provided members with a detailed update summarised as follows:

- Environmental monitoring analysis of fish identified a statistical anomaly in the 3rd quarter of 2019, which was notified to the environment agencies. Statistics are based on the most recent 12 measurements, all of which were consistency low. The result was not unusual when comparing to previous results and there were no increases in discharges that could have caused this increase.
- In January 2019, following drain cleaning along a roadway adjacent to land known to contain oil contaminants, a slight sheen of oil was witnessed at Afon Tafarn Helyg. An oil boom was deployed and there were no further oil sheens observed.
- No permit breaches have been reported at Trawsfynydd site.
- Environmental discharges - during this last period the site has maintained discharges to the environment at very low levels, significantly below the annual permitted limits.
- Radiological safety - all doses are as forecasted while applying as low as reasonably practicable (ALARP) working practices.

SR was thanked for his presentation.

What's new?

- Preparations for the final reactor height reduction enabling works commenced in January with Erith leading a joint venture with local construction firm OBR.
- Sewage Treatment Plant replacement work started
- Work commenced on Diversion Culvert upgrades and access improvements.

Question and answer session

Cllr Meredydd Williams (MW) enquired as to why there are so many lights on site during the night. AR responded by noting that lighting should be at a minimum after 6:30pm but would look into this and report back to MW

Nia Bowden (NB) enquired as to exact number of staff increase. AR stated that there has been approximately 20–30 new staff member.

MW noted that there were a number of structures remaining and referred also ground water levels. IW stated that the structures that will remain will not affect future use of the site and will achieve the necessary statutory requirements. As regards the ground water he confirmed that this was low level and is continually being monitored via bore holes around the site. He noted that there will be a further monitoring period following completion in order to reach the statutory requirements.

The Chair thanked AR; SR and IW for their contributions and commended the reviewed format of presentation noting its succinctness and clarity.

6. Report by the Office for Nuclear Regulation

Members received and acknowledged the contents of a written update report in Mr Ian Dallas' absence.

7. Report by Natural Resources Wales

8. Environment Agency Report

Mike Baggs presented the report on behalf of both organisations noting that it covered the period since the last Site Stakeholder Group (SSG) meeting on 6 June 2019 and highlighted some key activities and areas of interest.

- All radioactive discharges from Trawsfynydd remained within the limits set in our radioactive substances activity environmental permit during the period since the last report.
- Environmental monitoring - all results from the programme reported during the period since the last report were in line with those from previous periods and showed no cause for concern.
- Routine regulatory matters - NRW has visited the site on four occasions since June 2019. In August 2019 and November 2019 routine compliance inspections were carried out. No compliance issues were identified and NRW were satisfied with permit compliance.
- In September along with the Office for Nuclear Regulation (ONR) we attended the annual regional review of safety, security and environment (AROSSE) covering both Trawsfynydd and Wylfa sites. It was agreed that environmental performance and permit compliance remains good.
- In October 2019 we attended a one day visit to with senior representatives from NRW and Welsh Government in order to promote awareness of GRR and the implications and opportunities for the site to some key stakeholders. In conjunction with ONR, NDA, planning representatives for Snowdonia National Park and Gwynedd Council we continue to work with Trawsfynydd site on the requirements of GRR. We have attended two routine meetings of the Trawsfynydd End State Group (TESG).

9. Report by the Nuclear Decommissioning Authority – Jonathan Jenkin

Mr Jenkin was welcomed to the meeting and provided a summary of the NDA report drawing particular attention to the following:-

- Views sought on NDA Draft Business Plan with a consultation period 23.12.19 – 14.2.20 - copy available on the NDA website
- R&D Direct Research Portfolio report published that includes case studies and a list of projects funded – copy available on NDA website.
- An announcement is expected in the Spring regarding the NDA's revised decommissioning strategy. An engagement programme is planned.

Question and Answer Session

Paul Richardson (PR) enquired as to the likelihood of Trawsfynydd becoming a Lead Site. JJ stated that he was not in a position to comment on this, however, he noted that funding for 2020/21 had been agreed before the General Election and that a funding prioritisation process was in place as outlined in the NDA Strategy.

Rory Trapp (RT) enquired as to the level of stakeholder engagement. JJ confirmed that there will be a full comprehensive engagement programme that will consider socio-economic, planning, supply chain and skills issues.

Sam Morgan (SM) enquired as to proposals for the railway. JJ stated that he was not aware of any changes since the last SSG meeting. He confirmed that contact between the NDA property agent and the rail company is ongoing. JJ stated that the NDA would wish to retain their ownership and work with Network Rail noting its value for future use. JJ also noted that the NDA was open to discuss any interim use.

The Chair thanked JJ for his presentation and noted that it was heartening to hear that Trawsfynydd was noted nationally as a progressive site.

10. Horizon Nuclear Power update – Ifer Gwyn

Mr Ifer Gwyn was welcomed to the meeting and updated members on the current situation at Wylfa noting the following:-

- Workforce - 20 is the current staff number, mainly involved in communications/administration
- Site work – reverting to agricultural use, and empty houses are being renovated
- Project - DCO progressing with decision date pushed forward to March 2020. Isle of Anglesey County Council is in continuous discussion with Welsh Government.

IG was thanked for the update report.

11. Cwmni Ynni Cymunedol Twrog – Dafydd Watts

Mr Dafydd Watts was welcomed to the meeting and provided a very informative presentation on the achievements and future developments for Cwmni Ynni Cymunedol Twrog. He noted the following:-

- Part of the Gwynedd LEADER programme
- Supporting 6 local community buildings
- Supported a scheme for low tariff electricity in Blaenau Ffestiniog, similar to a successful project in Bethesda, Gwynedd
- Supporting projects such as TrydaNi; Solar Panels; Y Dref Werdd and Arbed am Byth

DW wished to thank all the different agencies that they work with, the local Community Councils and Cwmni Bro Stiniog. The Chair thanked DW for his informative presentation and it was agreed to circulate the content to all members.

12. Magnox socio-economic scheme update – Mair Jones

Mair Jones was welcomed to the meeting and provided the following update on the socio-economic scheme:

To date this financial year ten organisations have been awarded funding through the Socio-economic scheme with a total of £186,916 in the surrounding communities of Trawsfynydd site. Groups that have benefited from the funding are:

- Ysgol Eifion Wyn, Porthmadog, Ysgol Treferythyr, Criccieth and Ysgol Talsarnau have all benefited with funding for outdoor education equipment from the good neighbour level funding of up to £1,000.
- Cloeswyr Tegid was awarded £1,000 to help buy 25 pairs of handmade wooden children's clogs to keep the traditional Welsh culture alive by offering free workshops for schools within the URDD programme in 2020.

- Eisteddfod Llawrplwy a Phenstryd received £600 to support the annual Trawsfynydd event for another three years.
- North Wales Mamal Group purchased a bat lure for its Nathasius Pipistrelle survey project with the help of a £1,000 contribution from Magnox. This enabled the group to work collaboratively with Gwynedd Bat Group to confirm the rare species' presence at three new locations including Trawsfynydd Lake.
- Bro Ffestiniog also received £2,016 to help purchase podcast and filming equipment. 30 individuals are to receive broadcast skills training through Bangor University. They will then be equipped to commission short films, interviews and promote community events via BROcast with the equipment funded by Magnox.
- Llanbedr Community Council was awarded £2,000 to commission and erect two attractive bilingual interpretation boards in the village and woodland area of Llanbedr.

Some of the larger, transformational applications supported:

- The Outdoor Partnership – Magnox have committed £180,000 towards the £1.5m five year continuation of the Pathways to Employment Programme which began in 2012. Working with local people with mental health problems and individuals with disabilities the Outdoor Partnership are continuing to remove barriers for underrepresented groups in the outdoor sector. In this first year, they aspire to recruit 250 new volunteer leaders, support local inclusive clubs and continue encouraging individuals to gain National Governing Body qualifications. They aim to improve access to outdoor activity taster experiences for 4,000 individuals with disabilities and engage and support 300 people with mental health problems, working in partnership with Mental Health Units in the area. Last July, The Outdoor Partnership gave a presentation at the NDA summit, held on Anglesey. They later announced they have been awarded a £2.9m Lottery Community Fund grant to recreate the success of their Snowdonia based projects in five regions, beginning with three similar mountain areas in East Ayrshire (Scotland), Newry (Northern Ireland) and Cumbria.
- STEM Gogledd Project – Magnox have supported the project with a contribution of £201,000 over four years towards the £2m project. The official launch of the STEM Gogledd project took place in MSParc Science Park last October with Dyfed Jones, the Project's Regional Manager, opening the event. Gwen Parry-Jones, CEO Magnox, was a guest speaker, along with Kirsty Williams AM, Minister for Education. Huw Smith, the newly appointed Improvement Officer for the project, also presented. The project offers a range of interventions that complement, but not duplicate, mainstream services. The aim is to increase the up take in STEM (Science Technology, Engineering and Maths) subjects amongst 11-19 year olds, especially females. Nearing the end of the second year, STEM Gogledd has formed a regional management team, developed a bespoke STEM Hub for students to access and appointed STEM Mentors to work with schools in Anglesey, Conwy and Gwynedd.
- Arloesi Gwynedd Wledig was awarded £285,000 from Magnox to continue the £5m pilot scheme and initiatives programme to 2023. Menter Môn delivers the project on behalf of the Local Action Group, under the title Arloesi

Gwynedd Wledig. This aligns to the LEADER's themes and focus areas of the Wales Rural Development Programme. In this second phase, the rural community enterprise initiative is set to deliver £8M in economic benefit, create 10 new business and 30 new jobs over the next three years. Activities are run on a trial basis whereby successful projects can be replicated in other areas of the county. The project received £285,000 directly from the NDA in 2016 for phase one. This included the fitbit for cows; Wifi in Aberdaron; crowd funding for hydro electrical installations at Dyffryn Ogwen and Dyffryn Peris; the drone academy in Llanbedr and the 'Time to Venture' project, which supported four individuals to pursue entrepreneurship. Further information contact: Michelle Humphreys for applications up to £1,000 – 01407 733953 Mair Jones for applications over £1,000 – 01407 733952

13. AOB

i) Magnox Stakeholder Charter

A copy of the above was circulated to members noting that it was a first draft. The following was noted at the meeting and members were invited to forward any further comment to Michelle Humphreys within the next two weeks:-

- Socio-Economic Support – reference to sustainable futures required definition
- Add on Welsh Government as a working partner (bullet 4)
- Develop an Exit Strategy

ii) Parc Menter Eryri Enterprise Zone

Mr John Idris Jones provided a brief update on the above explaining that the purpose of the initiative was to facilitate developments.

He referred to the following:-

- Local development plan includes Trawsfynydd as well as Llanbedr
- Small Modular Reactor is the first choice for Traws site
- Consider Medical Isotopes production. Currently no such production in the UK – produced in Europe, Australia and Canada and imported. Research into production utilising the 'Opal' model ongoing. Possibility of creating 250 jobs and development of a supporting health hub on site.
- Plans ongoing for Llanbedr by-pass

Mr J I Jones was thanked for his presentation.

14. Date and time of next meeting

Date: 4 June 2020

Time: 10.15 am site tour, lunch 12.30 and SSG meeting 1.00pm

Venue: Trawsfynydd Conference and Induction Centre

The Chair thanked all for their attendance and closed the meeting at 3:15pm



Site Stakeholder Group

Crynodeb o'r prif bwytiau o gyfarfod Grŵp Rhanddeiliaid Safle Trawsfynydd a gynhaliwyd ar 30 Ionawr 2020, yng Nghanolfan Gynadledda a Sefydlu Trawsfynydd

1. Rhoddodd y Cadeirydd y diweddaraf i'r aelodau am gyfarfodydd y bu ynndynt yn ddiweddar. Croesawodd Angharad Rayner i'w chyfarfod cyntaf fel Cyfarwyddwr newydd Cau'r Safle.
2. Cyflwynodd Angharad Rayner Adroddiad Cyfarwyddwr Cau Safle Magnox ar gyfer Trawsfynydd. Esboniodd y bydd adroddiad ysgrifenedig arferol y Rheolwr Safle yn cael ei ategu gan gyflwyniad fideo a ddarparwyd yn ddiweddar i'r staff.
3. Rhoddodd Mr Ian Warner yr wybodaeth ddiweddaraf am Gyflwr Terfynol y Safle.
4. Rhoddodd Mike Baggs, Asiantaeth yr Amgylchedd, wybodaeth am yr adroddiad ar y cyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru/Asiantaeth yr Amgylchedd.
5. Rhoddodd Jonathan Jenkin o'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA) ddiweddariad ar weithgareddau ar y safle ar ran yr NDA.
6. Rhoddodd Mr Ifer Gwyn y wybodaeth ddiweddaraf ar ran Horizon Nuclear Power.
7. Rhoddodd Mr Dafydd Watts gyflwyniad ar Gwmni Ynni Cymunedol Twrog a'r hyn yr oedd wedi'i gyflawni hyd yma.
7. Rhoddwyd diweddariad gan Mair Jones ar y rhai sydd wedi derbyn arian gan Gynllun Economaidd-Gymdeithasol Magnox.



Site Stakeholder Group

**Cyfarfod Grŵp Rhanddeiliaid Safle Trawsfynydd
Dydd Iau 30 Ionawr 2020 am 13:00 o'r gloch
Cynhaliwyd yn yr Ystafell Gynadledda
yng Nghanolfan Gynadledda a Sefydlu Trawsfynydd**

COFNODION

YN BRESENNOL

ENW

Y Cyng. Keith O'Brien (Cadeirydd)
Angharad Rayner
Y Cyng. David Meredydd Williams
Y Cyng. John Llewelyn Richards (Is-gadeirydd)
P Richardson
Rory Trappe
John Idris Jones
Nia Swann Bowden
Mike Baggs
David Wilby
Ifer Gwyn
Ian Warner
Sion Richards
Steve Thomason
Sam Morgan
Andrew McAteer
Bryn Jones
Y Cyng. Elfed Roberts
B. Walley
A J Taylor
Andrew Innes
Tas Aichtiar
Medwyn Williams
Jonathon Jenkin
Michelle Humphreys
Mair Jones
Sydna Roberts
Gwynfor Jones

SEFYDLIAD

Cyngor Cymuned Trawsfynydd
Cyfarwyddwr Cau Safle Magnox
Cyngor Cymuned Maentwrog
Cyngor Cymuned Talsarnau
Magnox
Magnox, Cynrychiolydd Undeb Llafur Traws
Ardal Fenter Eryri
Ardal Fenter Eryri
Cyfoeth Naturiol Cymru/Asiantaeth yr Amgylchedd
Cyfoeth Naturiol Cymru/Asiantaeth yr Amgylchedd
Horizon
Magnox
Magnox
Magnox, Trawsfynydd (Unite)
Blaenau Ffestiniog
Magnox, Maentwrog
Trawsnewid
Cyngor Gwynedd
Magnox, Cynrychiolydd Undeb Llafur Traws
Rheolwr Gwastraff Magnox
Magnox Traws, Adran Beirianneg
Magnox Traws, Peiriannydd Gwarchod rhag Ymbel
Cyngor Tref Penrhyndeudraeth
NDA
Arweinydd Ranbarthol Uned Gyfathrebu Magnox
Cynllun Economaidd-gymdeithasol Magnox
Cymen – cofnodydd
Cymen – cyfieithydd

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Rhoddodd y Cadeirydd groeso i bawb i'r cyfarfod am 1pm. Nodwyd yr ymddiheuriadau canlynol:

Julia Frost
Ian Dallas
Y Cyng. Gareth Thomas
Iestyn Pritchard
Sioned Williams
Glyn Daniel
Anwen Daniel

Cyfoeth Naturiol Cymru
ONR
Cyngor Sir Gwynedd
Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr
CSG
Blaenau Ffestiniog
Blaenau Ffestiniog

2. Cymeradwyo Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Mehefin 2019

Cafodd cofnodion y cyfarfod ar 6 Mehefin 2019 eu cyflwyno a'u derbyn fel cofnod cywir.

3. Materion sy'n codi o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6.6.19

Ni chafodd unrhyw faterion eu codi.

4. Anerchiad y Cadeirydd – Keith O'Brien

Croesawodd y Cadeirydd Angharad Rayner i'w chyfarfod cyntaf fel Cyfarwyddwr Cau'r Safle a dymunodd yn dda iddi yn ei swydd newydd. Rhoddodd y Cadeirydd ddarlun cyffredinol o'i weithgareddau ers y cyfarfod diwethaf, gan dynnu sylw at y canlynol yn arbennig:

- Gohiriwyd cyfarfod y grŵp a drefnwyd ar gyfer mis Rhagfyr diwethaf oherwydd bod y Llywodraeth mewn cyfnod sensitif cyn yr etholiad. Fodd bynnag, mae'r NDA yn dymuno ymddiheuro am yr oedi nad oedd, fel sydd wedi dod i'r amlwg, yn angenrheidiol.
- Bydd Uwchgynadledd Rhanddeiliaid Flynyddol yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear yn cael ei chynnal ar 9–10 Gorffennaf yng Ngholeg Menai Llangefni. Rhannodd daflen a oedd yn amlinellu prif weithgareddau'r digwyddiad. Roedd gwaith y Genhedlaeth Nesaf gydag ysgolion a chefnogi datblygu sgiliau yn neges allweddol. Cynhelir Uwchgynhadledd Rhanddeiliaid nesaf yr NDA yng Nghaeredin, Tachwedd 2020
- Yr wythnos diwethaf, bu mewn cyfarfod yn Llundain lle rhoddodd Gwen Parry-Jones, Prif Weithredwr newydd Magnox, gyflwyniad. Braf oedd nodi bod Trawsfynydd wedi cael ei grybwyll mewn ffordd gadarnhaol sawl gwaith yn ystod y cyfarfod.
- Bydd Siarter y Grŵp Cyfeirio Strategol yn cael ei thrafod o dan Unrhyw Fater Arall
- Sioeau teithiol i'w trefnu ar gyfer Magnox ac RWM – bydd yn rhoi gwybod i'r aelodau
- Wedi mynychu nifer o gyfarfodydd y Panel Economaidd-Gymdeithasol
- Awyren arnofio felen yn defnyddio'r llyn – trosglwyddwyd y mater hwn i'r NDA sydd bellach yn trafod gyda Magnox sy'n berchen ar y brydles ar y llyn. Ceisir cyngor cyfreithiol ar hyn o bryd.

5. Adroddiad Cyfarwyddwr Cau'r Safle - Angharad Rayner

Diolchodd Angharad Rayner i'r Cadeirydd a'r aelodau am y croeso a'u dymuniadau da. Rhoddodd adroddiad ysgrifenedig llawn i'r aelodau a oedd wedi'i grynhoi mewn cyflwyniad fideo ar ddatblygiadau a chyflawniadau ar y safle hyd yma.

Roedd y crynodeb fel a ganlyn:-

Cyfnod adrodd: Mehefin 2019 - Ionawr 2020

Perfformiad diogelwch

Mae'r safle'n dal i weld adroddiadau lefel isel rhagorol heb unrhyw ddiogwyddiadau arwyddocaol yn ystod y 12 mis diwethaf.

Rhaglen iechyd a lles gweithwyr

- Grŵp Llywio Iechyd a Lles wedi'i ffurfio ym mis Tachwedd 2019.
- Iechyd 20/20 – cydweithio rhwng Magnox ac Interserve i hybu iechyd a lles ar draws y ddau gwmni.
- Mae canlyniadau arolwg safle wedi cyfrannu at Galendr Gweithgareddau ar gyfer Her 2020-02-19 20/20 a lanswyd ym mis Ionawr 2020 a bydd yn para tan ddiwedd y flwyddyn
- Staff yn cael pedometrau i annog ffitrwydd
- Cynhaliwyd Ffair Iechyd a Lles ar 21 Chwefror lle roedd arbenigwyr lleol yn cynnig amrywiaeth eang o wasanaethau a gweithgareddau, o gymorth iechyd meddwl i grwpiau dringo a gwau.
- Coleg Menai i ddatblygu cwrs Ffiseg Iechyd newydd a fydd yn cael ei ymestyn i safle Dolgellau ac o bosibl ledled y DU i Gwmnïau eraill ei ddefnyddio.
- Mae myfyriwr graddedig newydd, gwraig ifanc leol, wedi cael ei chroesawu i'r safle.

Pontio

- Ym mis Medi 2019, newidiodd Magnox o fod yn Sefydliad Rhiant-Gorff i Is-gwmni o'r NDA
- Ym mis Tachwedd 2019, ymunodd 20 o staff Wylfa â Thrawsfynydd yn sgil cwblhau'r gwaith Tynnu Tanwydd yn Wylfa.
- Bu tîm Ffiseg Iechyd Trawsfynydd yn ailhyfforddi cyn-weithwyr Wylfa.

Cynnydd o ran Llwybrau Critigol

- Wrthi ar hyn o bryd yn gweithio drwy amserlen lefel uchel sy'n edrych ar Offer a Strwythur; Adfer Safle a Gweithrediadau Gwastraff.
- Mae pob un o'r ffrydiau gwastraff lefel ganolraddol ar agor neu wedi'u cwblhau
- Cyfradd adennill 50% wedi'i chwblhau gan FED y Gogledd
- Awst 2019 – FED y De wedi dechrau comisiynu.
- Cwblhaodd y tîm Gwastraff Lefel Isel darged 2019/20 i gludo 12 llwyth o wastraff lefel isel mewn tri mis gyda phedwar llwyth ychwanegol erbyn 31.03.2020

Beth sy'n cael ei wneud nawr?

Tynnu Peiriannau o'r Pyllau

Rhoddodd Mr Ian Warner ddiweddariad manwl i'r aelodau ar y cynnydd hyd yma gan nodi'r canlynol.

- Ystafell gêr switsh a chyntedd y Pyllau – wedi'u cwblhau
- Ystafell hidlo'r pyllau (de) – gwaith yn mynd rhagddo.
- Llawr gwaelod offer elifion gweithredol y pyllau – wrthi'n paratoi
- Tanciau Oedi Elifiant Terfynol (FEDT) wedi'u tynnu gan contractwr lleol, a oedd felly yn fwy cost effeithiol
- Gwaith yn mynd rhagddo o ran Rheoli Asedau

Diolchwyd i IW am ei gyflwyniad a chytunwyd i'w ddsbarthu i'r holl aelodau.

Diogelwch Amgylcheddol

Rhoddodd Sion Richards ddiweddariad manwl i'r aelodau a grynhoir fel a ganlyn:

- Bu i ddadansoddiad monitro amgylcheddol ar bysgod ganfod anghysondeb ystadegol yn 3^{ydd} chwarter 2019, a rhoddwyd gwybod amdano i'r asiantaethau amgylcheddol. Mae'r ystadegau'n seiliedig ar y 12 mesuriad mwyaf diweddar, gyda phob un ohonynt yn gyson isel. Nid oedd y canlyniad yn anarferol o'i gymharu â chanlyniadau blaenorol ac ni fu unrhyw gynnydd mewn gollyngiadau a allai fod wedi achosi'r cynnydd hwn.
- Ym mis Ionawr 2019, yn dilyn glanhau draeniau hyd ochr ffordd gerllaw tir y gwyddys ei fod yn cynnwys llygredd olew, gwelwyd ychydig o sglein olew yn Afon Tafarn Helyg. Defnyddiwyd bwm olew ac ni welwyd unrhyw arlliw pellach o olew.
- Does dim achosion eraill o dorri amodau trwydded wedi cael eu cofnodi ar safle Trawsfynydd.
- Yn ystod y cyfnod olaf hwn, mae'r safle wedi cynnal lefel y gollyngiadau i'r amgylchedd ar lefelau isel iawn, yn sylweddol is na'r terfynau blynyddol a ganiateir.
- Diogelwch radiolegol - mae'r holl ddogneau fel y'u rhagfynegwyd wrth ddefnyddio arferion gweithio mor isel ag sy'n ymarferol resymol (ALARP).

Diolchwyd i SR am ei gyflwyniad.

Beth sy'n newydd?

- Dechreuodd y paratodau ar gyfer gostwng uchder terfynol yr adweithydd ym mis Ionawr gydag Erith yn arwain menter ar y cyd gyda'r cwmni adeiladu lleol, OBR.
- Dechrau'r gwaith o adnewyddu'r Offer Trin Carthion.
- Dechreuodd y gwaith ar uwchraddio Cwlferi Dargyfeirio a gwella mynediad.

Sesiwn Holi ac Ateb

Holodd y Cyng. Meredydd Williams (MW) pam fod cymaint o oleuadau ar y safle yn ystod y nos. Atebodd AR drwy nodi y dylai fod cyn lleied â phosib o oleuadau ar ôl 6:30pm ond y byddai'n edrych ar hyn ac yn adrodd yn ôl i MW.

Holodd Nia Bowden (NB) o ba nifer yn union y byddai'r staff yn cynyddu. Dywedodd AR fod tua 20-30 aelod newydd o staff wedi ymuno.

Nododd MW fod nifer o strwythurau ar ôl a chyfeiriodd hefyd at lefelau dŵr daear. Dywedodd IW na fydd y strwythurau a fydd yn aros yn effeithio ar y defnydd o'r safle yn y dyfodol ac y byddant yn bodloni'r gofynion statudol angenrheidiol. O ran y dŵr daear, cadarnhaodd fod hon yn lefel isel a'i bod yn cael ei monitro'n barhaus drwy dyllau turio o amgylch y safle. Nododd y bydd cyfnod monitro pellach yn dilyn cwblhau er mwyn cyrraedd y gofynion statudol.

Diolchodd y Cadeirydd i AR; SR ac IW am eu cyfraniadau a chanmolodd fformat diwygiedig y cyflwyniad gan nodi ei grynoder a'i eglurder.

6. Adroddiad gan y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear

Derbyniodd a chydnabu'r aelodau gynnwys adroddiad diweddarar ysgrifenedig yn absenoldeb Mr Ian Dallas.

7. Adroddiad gan Cyfoeth Naturiol Cymru

8. Adroddiad Asiantaeth yr Amgylchedd

Cyflwynodd Mike Baggs yr adroddiad ar ran y ddau sefydliad gan nodi ei fod yn cwmpasu'r cyfnod ers cyfarfod diwethaf y Grŵp Rhanddeiliaid Safle ar 6 Mehefin 2019, a thynnodd sylw at rai gweithgareddau a meysydd allweddol o ddiddordeb.

- Roedd yr holl ollyngiadau ymbelydrol o Drawsfynydd wedi aros o fewn y terfynau a osodwyd yn ein trwydded amgylcheddol ar gyfer gweithgarwch sylweddau ymbelydrol yn ystod y cyfnod ers yr adroddiad diwethaf.
- Monitro amgylcheddol – roedd holl ganlyniadau'r rhaglen a adroddwyd yn ystod y cyfnod ers yr adroddiad diwethaf yn cyd-fynd â chanlyniadau'r cyfnodau blaenorol ac nid oedd unrhyw achos i bryderu.
- Materion rheoleiddio arferol – mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ymweld â'r safle bedair gwaith ers mis Mehefin 2019. Ym mis Awst 2019 a mis Tachwedd 2019, cynhaliwyd arolygon cydymffurfio rheolaidd. Ni nodwyd unrhyw faterion cydymffurfio ac roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn fodlon â'r cydymffurfio â'r trwyddedau.
- Ym mis Medi, ynghyd â'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear, aethom i'r adolygiad rhanbarthol blynyddol o ddiogelwch personol, diogelwch eiddo a'r amgylchedd (AROSSE) ar gyfer safleoedd Trawsfynydd a Wylfa. Cytunwyd bod y perfformiad amgylcheddol a'r cydymffurfio â'r drwydded yn parhau'n dda.
- Ym mis Hydref 2019, aethom i ymweliad undydd ag uwch gynrychiolwyr o Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru er mwyn hybu ymwybyddiaeth o GRR a goblygiadau a chyfleoedd y safle i rai rhanddeiliaid allweddol. Ar y cyd â'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear, yr NDA, cynrychiolwyr cynllunio ar ran Parc Cenedlaethol Eryri a Chyngor Gwynedd, rydym yn parhau i weithio gyda safle Trawsfynydd ar ofynion GRR. Rydym wedi mynychu dau gyfarfod rheolaidd o Grŵp Cyflwr Terfynol Trawsfynydd (TESG).

9. Adroddiad gan yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear - Jonathan Jenkin

Croesawyd Jonathan Jenkin i'r cyfarfod a rhoddodd grynodedb o adroddiad yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA), gan dynnu sylw at y canlynol yn arbennig:

- Ceisiwyd barn ar Gynllun Busnes Drafft yr NDA yn ystod cyfnod ymgynghori 23.12.19 - 14.2.20 - mae copi ar gael ar wefan yr NDA.
- Adroddiad Portffolio Ymchwil Uniongyrchol R&D a gyhoeddwyd, sy'n cynnwys astudiaethau achos a rhestr o'r prosiectau a ariannwyd - mae copi ar gael ar wefan yr NDA.
- Disgwylir cyhoeddiad yn y gwanwyn ynglŷn â strategaeth ddatgomisiynu ddiwygiedig yr NDA. Mae rhaglen ymgysylltu yn cael ei chynllunio.

Sesiwn Holi ac Ateb

Holodd Paul Richardson (PR) pa mor debygol yw hi y bydd Trawsfynydd yn dod yn Safle Arweiniol. Dywedodd JJ nad oedd mewn sefyllfa i ddweud dim am hyn.

Nododd y daethpwyd i gytundeb ar gyllid 2020/21 cyn yr Etholiad Cyffredinol a bod proses blaenoriaethau ariannu ar waith fel yr amlinellwyd yn Strategaeth yr NDA.

Holodd Rory Trapp (RT) ynghylch lefel yr ymgysylltu â rhanddeiliaid. Cadarnhaodd JJ y bydd rhaglen ymgysylltu gynhwysfawr a fydd yn ystyried materion economaidd-gymdeithasol, cynllunio, y gadwyn gyflenwi a sgiliau.

Holodd Sam Morgan (SM) ynglŷn â'r cynigion o ran y rheilffordd. Dywedodd JJ nad oedd yn ymwybodol o unrhyw newidiadau ers cyfarfod diwethaf y Grŵp. Cadarnhaodd fod y contract rhwng asiant eiddo'r NDA a chwmni'r rheilffordd yn parhau. Dywedodd JJ y byddai'r NDA am gadw ei berchenogaeth a'r gwaith gyda Network Rail gan gyfeirio at ei werth o ran defnydd yn y dyfodol. Dywedodd JJ hefyd fod yr NDA yn agored i drafod unrhyw ddefnydd yn y cyfamser.

Diolchodd y Cadeirydd i JJ am ei gyflwyniad a dywedodd ei bod yn galonogol clywed bod Trawsfynydd yn cael ei chydnabod yn genedlaethol fel safle blaengar.

10. Diweddariad Horizon Nuclear Power - Ifer Gwyn

Croesawyd Mr Ifer Gwyn i'r cyfarfod a rhoddodd y wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau ar y sefyllfa yn Wylfa ar hyn o bryd, gan nodi'r canlynol:-

- Gweithlu - 20 o staff sydd yno ar hyn o bryd, yn ymwneud yn bennaf â chyfathrebu/gweinyddu.
- Gwaith safle – dychwelyd i ddefnydd amaethyddol, a thai gwag yn cael ei hadnewyddu.
- Prosiect - mae'r Gorchymyn Cydsyniad Datblygu yn mynd rhagddo a'r dyddiad penderfynu wedi'i wthio ymlaen i fis Mawrth 2020. Mae Cyngor Sir Ynys Môn mewn trafodaethau parhaus â Llywodraeth Cymru.

Diolchwyd i IG am yr adroddiad diweddarau.

11. Cwmni Ynni Cymunedol Twrog – Dafydd Watts

Croesawyd Mr Dafydd Watts i'r cyfarfod a rhoddodd gyflwyniad llawn gwybodaeth ar yr hyn sydd wedi'i gyflawni gan Gwmni Ynni Cymunedol Twrog a'r datblygiadau i'r dyfodol. Nododd y canlynol:-

- Rhan o raglen LEADER Gwynedd
- Mae'n cefnogi 6 adeilad cymunedol lleol
- Wedi cefnogi cynllun trydan tariff isel ym Mlaenau Ffestiniog, tebyg i brosiect llwyddiannus ym Methesda, Gwynedd
- Mae'n cefnogi prosiectau fel TrydaNi; Paneli Solar; Y Dref Werdd ac Arbed am Byth

Roedd DW eisiau diolch i'r holl asiantaethau gwahanol y maen nhw'n gweithio gyda nhw, y Cynghorau Cymuned lleol a Chwmni Bro Stiniog. Diolchodd y Cadeirydd i DW am ei gyflwyniad llawn gwybodaeth a chytunwyd i gylchredeg y cynnwys i'r holl aelodau.

12. Y diweddaraf am gynllun economaidd-gymdeithasol Magnox - Mair Jones

Croesawyd Mair Jones i'r cyfarfod, a rhoddodd yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun economaidd-gymdeithasol:

Hyd yn hyn yn y flwyddyn ariannol hon, dyfarnwyd cyllid i ddeg sefydliad drwy'r cynllun Economaidd-gymdeithasol gyda chyfanswm o £186,916 yn y cymunedau o amgylch safle Trawsfynydd. Dyma rai o'r grwpiau sydd wedi elwa o'r arian:

- Mae Ysgol Eifion Wyn, Porthmadog, Ysgol Treferthyr, Cricieth ac Ysgol Talsarnau i gyd wedi elwa o arian ar gyfer offer addysg awyr agored o gyllid lefel cymydog da hyd at £1,000.
- Dyfarnwyd £1,000 i Gloeswyr Tegid i helpu tuag at brynu 25 pâr o gloesiau pren wedi'u gwneud â llaw ar gyfer plant er mwyn cadw'r diwylliant Cymraeg traddodiadol yn fyw drwy gynnig gweithdai rhad ac am ddim i ysgolion yn rhaglen yr URDD yn 2020.
- Derbyniodd Eisteddfod Llawrplwy a Phenstryd £600 i gynorthwyo'r digwyddiad blynyddol yn Nhrawsfynydd am dair blynedd arall.
- Roedd Grŵp Mamaliaid Gogledd Cymru wedi prynu offer denu ystlumod ar gyfer ei brosiect Nathasius Pipistrelle gyda chymorth cyfraniad o £1,000 gan Magnox. Yr oedd hyn yn galluogi'r grŵp i weithio ar y cyd â Grŵp Ystlumod Gwynedd i gadarnhau presenoldeb y rhywogaeth brin mewn tri lleoliad newydd gan gynnwys Llyn Trawsfynydd.
- Roedd Bro Ffestiniog hefyd wedi derbyn £2,016 tuag at brynu offer ffilmio a phodlediadau. Bydd 30 o unigolion yn cael hyfforddiant ar sgiliau darlledu drwy Brifysgol Bangor. Yna byddant yn barod ar gyfer comisiynu ffilmiau byr, cyfweiliadau a hyrwyddo digwyddiadau cymunedol drwy gyfrwng 'BROcast' gyda'r offer a ariannwyd gan Magnox.
- Cyngor Cymuned Llanbedr - wedi derbyn £2,000 i gomisiynu a chodi dau o fyrddau dehongli deniadol a dwyieithog yn y pentref ac yn ardal goediog Llanbedr.

Dyma rai o'r ceisiadau trawsnewid mwy a gafodd eu cefnogi:

- Y Bartneriaeth Awyr Agored - mae Magnox wedi ymrwymo £180,000 tuag at barhad pum mlynedd y Rhaglen £1.5m Llwybrau i Waith a ddechreuodd yn 2012. Gan weithio gyda phobl leol â phroblemau iechyd meddwl ac unigolion ag anabledau, mae'r Bartneriaeth Awyr Agored yn parhau i gael gwared â rhwystrau ar gyfer grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli yn y sector awyr agored. Yn y flwyddyn gyntaf, maen nhw'n gobeithio recriwtio 250 o arweinwyr gwirfoddolwyr newydd, cynorthwyo grwpiau cynhwysol lleol a pharhau i annog unigolion i ennill cymwysterau'r Corff Llywodraethu Cenedlaethol. Eu nod yw gwella mynediad at brofiadau blasu gweithgareddau awyr agored ar gyfer 4,000 o unigolion gydag anabledau ac ymgysylltu â 300 o bobl gyda phroblemau iechyd meddwl a'u cynorthwyo, gan weithio mewn partneriaeth ag Unedau Iechyd Meddwl yn yr ardal. Fis Gorffennaf diwethaf, rhoddodd y Bartneriaeth Awyr Agored gyflwyniad yn uwchgyhadledd yr NDA a gynhaliwyd ar Ynys Môn. Yn ddiweddarach, fe wnaethant gyhoeddi eu bod wedi derbyn grant o £2.9m o Gronfa Gymunedol y Loteri i ail-greu llwyddiant eu prosiectau yn Eryri mewn pum rhanbarth arall, gan ddechrau gydag ardaloedd mynyddig tebyg yng Nwyrain Swydd Ayr (yr Alban), Newry (Gogledd Iwerddon) ac yn Cumbria.
- Prosiect STEM y Gogledd – Mae Magnox wedi cefnogi'r prosiect gyda chyfraniad o £201,000 dros bedair blynedd tuag at y prosiect £2m. Cynhaliwyd lansiad swyddogol STEM y Gogledd ym Mharc Gwyddoniaeth MSParc fis Hydref diwethaf, gyda Dyfed Jones, Rheolwr Rhanbarthol y Prosiect, yn agor y digwyddiad. Roedd Gwen Parry-Jones, Prif Swyddog

Gweithredol Magnox, yn siaradwr gwadd, ynghyd â Kirsty Williams AC, y Gweinidog Addysg. Rhoddwyd cyflwyniad hefyd gan Huw Smith, y Swyddog Gwelliant a benodwyd i'r prosiect. Mae'r prosiect yn cynnig ystod o ymyriadau sy'n ategu, ond ddim yn dyblygu, gwasanaethau prif ffrwd. Y nod yw cynyddu'r nifer sy'n ymgymryd â phynciau STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg) ymysg pobl ifanc 11-19 mlwydd oed, yn enwedig merched. Yn dynesu at ddiwedd yr ail flwyddyn, mae STEM y Gogledd wedi ffurfio tîm rheoli rhanbarthol, wedi datblygu Hwb STEM penodol i fyfyrwyr gael mynediad ato ac wedi penodi Mentoriaid STEM i weithio gydag ysgolion ar Ynys Môn, yng Nghonwy ac yng Ngwynedd.

- Arloesi Gwynedd Wledig - dyfarnwyd £285,000 gan Magnox er mwyn i'r cynllun peilot £5m a'r rhaglen fentrau barhau hyd 2023. Menter Môn sy'n cyflawni'r prosiect ar ran y Grŵp Gweithredu Lleol, dan y teitl Arloesi Gwynedd Wledig. Mae'n alinio â themâu a meysydd ffocws LEADER yn Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru. Yn yr ail gam hwn, mae'r cynllun menter gymunedol wledig ar y ffordd i gyflawni £8M o fudd economaidd, 10 busnes newydd a 30 o swyddi newydd dros y tair blynedd nesaf. Caiff gweithgareddau eu cynnal ar sail treialu, fel y gall prosiectau llwyddiannus gael eu copïo mewn ardaloedd eraill o'r sir. Derbyniodd y prosiect £285,000 yn uniongyrchol gan yr NDA yn 2016 ar gyfer cam un. Roedd yn cynnwys y 'fitbit' i wartheg; Wifi yn Aberdaron; cyllido torfol ar gyfer gosodiadau trydan dŵr yn Nyffryn Ogwen a Dyffryn Peris; yr academi dronau yn Llanbedr a'r prosiect 'Amser Mentro' a roddodd gefnogaeth i bedwar o unigolion ddilyn llwybr entrepreneuriaeth. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â: Michelle Humphreys ar gyfer ceisiadau hyd at £1,000 – 01407 733953 Mair Jones ar gyfer ceisiadau dros £1,000 - 01407 733952

13. Unrhyw fater arall

i) Siarter Rhanddeiliaid Magnox

Cylchredwyd copi o'r uchod i'r aelodau gan nodi mai drafft cyntaf ydoedd. Nodwyd y canlynol yn y cyfarfod a gwahoddwyd yr aelodau i anfon unrhyw sylwadau pellach at Michelle Humphreys o fewn y pythefnos nesaf:-

- Cefnogaeth Economaidd-gymdeithasol - mae angen diffinio'r cyfeiriad at ddyfodol cynaliadwy
- Ychwanegu Llywodraeth Cymru fel partner gwaith (bwled 4)
- Datblygu Strategaeth Ymadael

ii) Parc Menter Eryri

Rhoddodd Mr John Idris Jones ddiweddariad byr ar yr uchod gan egluro mai pwrpas y fenter oedd hwyluso datblygiadau.

Cyfeiriodd at y canlynol:-

- Mae'r cynllun datblygu lleol yn cynnwys Trawsfynydd yn ogystal â Llanbedr
- Adweithydd Modwlar Bach yw'r dewis cyntaf i safle Traws
- Ystyried cynhyrchu Isotopau Meddygol. Nid oes unrhyw gynhyrchu o'r fath yn y DU ar hyn o bryd - cânt eu cynhyrchu yn Ewrop, Awstralia a Chanada a'u mewnfario. Mae'r ymchwil i gynhyrchu gan ddefnyddio model 'Opal' yn mynd rhagddo. Posiblwydd o greu 250 o swyddi a datblygu hwb iechyd ategol ar y safle.
- Cynlluniau ar gyfer ffordd osgoi Llanbedr ar y gweill

Diolchwyd i Mr J I Jones am ei gyflwyniad.

14. Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf

Dyddiad: 4 Mehefin 2020

Amser: 10.15 am daith o amgylch y safle, cinio 12.30 a chyfarfod Grŵp
Rhanddeiliaid y Safle 1.00pm

Lleoliad: Canolfan Gynadledda a Sefydlu Trawsfynydd

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a chaeodd y cyfarfod am 3:15pm